



Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 16EG MAWRTH, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 10 Mawrth 2026)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODADETH (9)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Geraint Wyn Parry
Gwynfor Owen

Elin Hywel

Ioan Thomas

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig (2)

Cyngorydd Robin Wyn Williams
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYs

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 9fed o Chwefror 2026 fel rhai cywir

5. ADRODDIAD RHAGAMCANION MODELU LLIF ARIAN

12 - 37

I ystyried yr adroddiad, nodi'r cynnwys a derbyn yr adroddiad

6. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

38 - 100

I ystyried yr adroddiad a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido

7. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI DIWYGIEDIG

101 - 114

I ystyried yr adroddiad a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi

8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2026/27

115 - 136

I ystyried yr adroddiad

I fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys atodol am 2026/27, fel ei addaswyd i bwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd (Atodiad A).

I wneudd cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

9. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

137 - 150

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

10. CYNLLUN BUSNES CYCHWYNNOL WPP INVESTMENT MANAGEMENT COMPANY LIMITED - BLWYDDYN ARIANNOL 2026/27 151 - 172

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

11. DIWEDDARIAD HYFFORDDIANT 2025/26 A CHYNLLUN HYFFORDDI 2026/27 173 - 183

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- Nodi'r hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod 2025/26;
- Nodi'r absenoldeb yr Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol 2025 a'r adolygiad arfaethedig o'r fframwaith;
- Cymeradwyo Cynllun Hyfforddi 2026/27 fel y nodir yn Atodiad 2

12. ADRODDIAD PRISIAD Y GRONFA BENSIWN 184 - 230

I ystyried yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

14. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 31 RHAGFYR 2025

I ystyried yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a chynnwys yr adroddiad atodol

(copi i'r Aelodau yn unig)

PWYLLGOR PENSIYNAU 09-02-2026

Presenoldeb: Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd)
Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)

Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

H Eifion Jones (aelod o'r Bwrdd Pensiwn) - arsylwi

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Brynmor Hughes, R Medwyn Hughes a Geraint Parry

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. John Brynmor Hughes

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

5. DATGANIAD STRATEGAETH GYLLIDO

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd y Rheolwr Buddsoddi ei bod hi'n ofyn statudol i adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido pob tair blynedd, a hynny fel arfer ar ôl y prisiad teirblynyddol (oni bai bod newid sylweddol wedi bod yn amodau'r farchnad). Eglurwyd mai pwrpas y ddogfen yw adlewyrchu ffactorau'r prisiad, gan gydbwyso fforddiadwyedd y cyflogwyr gydag amcanion hylifedd hir dymor y gronfa.

Adroddwyd mai sail y ddogfen yw'r prisiad actiwaraid ac fe baratowyd y prisiad actiwaraid gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Cyflwynwyd y rhagdybiaethau hyn i'r Pwyllgor Pensiynau i'w cymeradwyo yn Medi 2025, gyda'r cyflogwyr wedi derbyn cyflwyniad gan yr actiwari ym mis Hydref 2025. Amlygwyd bod y canlyniadau yn bositif iawn gyda lefel cyllido'r Gronfa gyfan yn 166%, gyda'r cyflogwyr yn cael gostyngiad yn eu cyfraniadau o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Mynegwyd bod y ddogfen drafft yn cael ei rhannu gyda holl gyflogwr y Gronfa am ymgynghoriad cyn cael ei mabwysiadu'n ffurfiol ym Mhwyllgor Mawrth 2026. Er yn derbyn bod y datganiad yn faith, cafodd ei baratoi mewn ymgynghoriad manwl gyda Hymans gyda mewnbwn gan swyddogion y Gronfa. Cyfeiriwyd at y polisiâu unigol sy'n bwydo i mewn i'r ddogfen, sy'n golygu petai angen addasu un o'r polisiâu yn y dyfodol, mai dim ond newid y polisi unigol fydd ei angen ac nid y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Ategwyd bod y Strategaeth yn gyson gyda'r Strategaethau blaenorol, ond bod un newid yn 'Polisi Ar Adael y Gronfa'. Yn hanesyddol, pe byddai'r cyflogwr yn dewis gadael y Gronfa, byddai angen cyfrifo credyd gadael, sef y swm sy'n ddyledus unai i'r Gronfa, neu allan o'r Gronfa, gyda'r cyfrifiad yma yn seiliedig ar ddychweliadau 'gilts' ac felly yn agored i symudiadau'r farchnad - y ffigwr yn gallu amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar amodau'r farchnad ar y pryd. Gyda'r cyfrifiad hefyd yn seiliedig ar un ffigwr ar bwynt mewn amser, golygai hyn bod y canlyniadau'n gallu bod yn gyfnewidiol (volatile), ac nid yw sail y giltiau yn adlewyrchu'r gwir gan fod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn amryw o asedau. O ganlyniad, awgrymodd yr actiwari y dylid newid i sail risg sef defnyddio cyfradd disgownt sy'n seiliedig ar ddryniad asedau'r Gronfa, ond sydd hefyd yn cynnwys 'coridor' er mwyn sicrhau nad oes ffactorau marchnad sylweddol ar un diwrnod yn effeithio'r prisiad. Ystyriwyd y byddai hyn yn rhoi gwell syniad i'r cyflogwyr o beth fydd cost gadael y Gronfa, a hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Gronfa na fydd cyflogwyr yn gadael ar adeg anfanteisiol - yr addasiad felly yn decach i bawb.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith adolygu.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

6. CYMERADWYO CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–2027.

Adroddwyd bod y gyllideb bellach yn cael ei chymeradwyo yn flynyddol gan y Pwyllgor Pensiynau. Cyfeiriwyd at gyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau sydd â 25 aelod o staff cyflogedig ynghyd â chostau systemau, argraffu, ac ad-daliadau canolog. Tynnwyd sylw at y cyflenwadau a'r gwasanaethau gan amlygu bod gofyn cynyddu'r gyllideb i £185,500, a hynny yn bennaf oherwydd cynnydd yn y costau postio, a'r costau meddalwedd - costau na ellid eu hosgoi yn anffodus.

Yng nghyd-destun cyllideb yr Uned Buddsoddi, nodwyd bod mwyafrif o'u dyletswyddau yn waith Cronfa Bensiwn ond eu bod hefyd yn gyfrifol am Reolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Yn ychwanegol, bydd costau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr o dan gyfrifoldeb y Rheolwr Buddsoddi; bydd y costau hyn yn amrywio ac yn ddibynnol ar berfformiad buddsoddiadau a'r gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr ymgynghorwyr ar Bartneriaeth. Wrth drosglwyddo a buddsoddi gyda PPC IM Co bydd angen cadw llygaid barcud ar y costau dros y cyfnod nesaf, ac felly ystyriwyd nad oedd diben gosod cyllideb eleni, ond yn rhywbeth fydd angen sylw yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Elfen arall na ellid ei chynnwys yn y gyllideb oedd newidiadau fydd angen eu gweithredu fel rhan o reoliadau 'Addas i'r Dyfodol' lle bydd gofyn statudol i benodi Prif Swyddog y Gronfa, unigolyn annibynnol i'r Pwyllgor, ynghyd a chostau gofynion llywodraethu a hyfforddiant ychwanegol. Nodwyd, fel y bydd gofynion yn codi a mwy o

wybodaeth am yr elfennau hyn yn dod i law, yna yn debygol, bydd angen cyflwyno cyllideb ategol. Bydd angen sefydlu strwythur newydd a phenderfynu ar swydd ddisgrifiadau erbyn y 1af o Hydref 2026, er nad oedd canllawiau terfynol wedi eu rhyddhau. Ategwyd, yng Ngwynedd, bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi eisoes yn cyfarfod gyda'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i drafod y trefniadau cyfansoddiadol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr addasiadau yn anorfod
- Bod angen dechrau trafodaethau mor fuan â phosib, am strwythur a swyddogaethau'r ddwy uned mewn ymateb i reoliadau 'Addas i'r Dyfodol'
- Gan ragdybio na fydd amserlen Addas i'r Dyfodol yn llithro

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rôl yr unigolyn annibynnol ar y Pwyllgor, nodwyd y bydd yr unigolyn yma gyda chymwysterau penodol, fydd yn unol â gofynion y Ddeddf, yn rhoi cyngor, rhannu arbenigedd a rhoi arweiniad a throsolwg ar yr elfennau buddsoddi a gweinyddol. Ategwyd na fyddai rôl Aelodau'r Pwyllgor yn newid na rôl yr Aelodau Cyfetholedig.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn y wybodaeth a chymeradwyo cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27**
- **Argymhell dechrau trafodaethau mor fuan â phosib, am strwythur a swyddogaethau'r ddwy uned mewn ymateb i reoliadau 'Addas i'r Dyfodol'**

7. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn amcanion ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson a hynny i wneud yn siŵr bod y gwaith sydd yn cael ei gyflawni ganddynt yn cyfateb ag amcanion strategol y Gronfa. Ategwyd bod yr ymarfer yn cael ei ystyried fel llywodraethu da.

Adroddwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur gyda'r ymgynghorwyr yn darparu arweiniad ar adolygu'r dyraniad asedau strategol yn sgil y prisiad teirblynyddol, darparu gwybodaeth ar gyfalaf naturiol a chyngor ar fuddsoddiadau newydd Black Rock a marchnadoedd preifat oedd ar gael drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Ategwyd bod Hymans hefyd wedi cyd weithio gyda'r swyddogion wrth adolygu polisïau mewnol a sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw reoliadau pensiwn perthnasol.

Er bod Hymans yn darparu gwybodaeth a phapurau o safon uchel, nid ydynt bob amser yn cyrraedd y swyddogion mewn modd amserol ar gyfer cyfarfodydd a Phwyllgorau, ac felly yr adborth yma wedi ei gyfleu iddynt yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at yr amcanion ar gyfer 2026 gan nodi eu bod yn parhau yn debyg i'r amcanion cyfredol, ond bod elfennau o'r gwaith ychwanegol, o gydweithio gyda chwmni buddsoddi newydd PPC yn 2026, wedi ei gynnwys.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNIAD

- **Derbyn a nodi cynnydd ar amcanion 2025**

- **Derbyn amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf**

Nodyn: Amcan 7 (2025) 'Darparu cyngor perthnasol ac amserol ...', mewn ymateb i sylw nad yw amseroedd cyflwyno bob amser yn unol â disgwyliadau swyddogion, dylid ail eirio amcan 7 ar gyfer y cyfnod nesaf, i gynnwys neu amlygu dyddiadau cau ar gyfer derbyn adroddiadau gan yr ymgynghorwyr

8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI - corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno). Cyflwynwyd diweddariad ar y materion arferol o adolygu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26, adolygiad o rai o'r risgiau o fewn yr adran Buddsoddi a diweddarau'r polisïau canlynol: Gwrthdaro buddiannau a'r weithdrefn Polisi, a Polisi Hyfforddi.

Cyfeiriwyd at fanylder gwaith y gweithredwr dros y cyfnod ac at amodau'r farchnad oedd wedi cael eu monitro ganddynt. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad a pherfformiad y cronfeydd gan amlygu bod perfformiad wedi bod yn gryf gydag ecwiti byd-eang a marchnadoedd incwm sefydlog yn codi yn y cyfnod.

Adroddwyd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi derbyn nifer o rybuddion o gynnig gan Gynghorau Lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Gwynedd (Cyngor Llawn, Hydref 2025) ar faterion buddsoddi cyfrifol, moesegol a chynaliadwy. Nodwyd bod y cynigion wedi derbyn ystyriaeth, ac yng ngoleuni'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â pholisi gwaharddiadau PPC, cytunwyd y byddai ymateb yn cael ei gyhoeddi i bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ynghyd a rhannu polisi diwygiedig pan fydd wedi ei gymeradwyo gan y CBLI ym mis Mawrth 2026.

Amlygwyd bod Prosiect yr Wyddfa yn datblygu'n gyflym er mwyn sefydlu'r cwmni buddsoddi (PPC IM Co) gyda chais Cofrestr Gwasanaethau Ariannol (Financial Conduct Authority - FCA), wedi'i gyflwyno a recriwtio ac ymgysylltu rheolaidd yn digwydd. Ategwyd bod swyddogion ac aelodau'r CBLI wedi bod yn trafod sefydlu cytundebau rhwng y cwmni buddsoddi â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol fel cleientiaid a chyfranddalwyr. Nodwyd y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i rannu gwybodaeth benodol ar y datblygiadau a'r cytundebau perthnasol gyda'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn cyn i'r Pwyllgor Pensiwnau eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod y Polisi Gwaharddiadau gan PPC yn gam positif ymlaen
- Y Polisi yn fodd o sicrhau eglurder ac i'r cyhoedd ddeall bwriad y Bartneriaeth
- Bod y Cadeirydd wedi ceisio barn gyfreithiol annibynnol ar yr adroddiadau / cytundebau er mwyn rhoi gwarchodaeth i'r Pwyllgor eu bod yn gwneud penderfyniad ar safbwynt Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ogystal â PPC

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r rhybuddion o gynnig, cadarnhawyd bod ymateb yn cael ei baratoi gan PPC i'w gyhoeddi gan bob Cyngor.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Croesawu datblygiad Polisi Gwaharddiadau PPC**

9. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar feysydd buddsoddi cyfrifol o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. Eglurwyd bod swyddog o Hymans Robertson yn gweithio yn barhaus yn y maes yma, gyda swyddogion o'r 8 cronfa leol yn mynychu gweithgor buddsoddi cyfrifol yn rheolaidd i drafod y gwaith.

Tynnwyd sylw at y gwaith oedd wedi ei weithredu yn ddiweddar, oedd yn cynnwys:

- Esblygu mandadau Black Rock i greu cronfa buddsoddi unigryw i ofynion cronfeydd Cymru gyda threfn pleidleisio pwrpasol i Gymru.
- Cod Stiwardiaeth: Partneriaeth Pensiwn Cymru unwaith eto wedi ei gadarnhau fel llofnodwr cod stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol (Financial Recording Council – FRC), sydd yn newyddion da.
- Bod adroddiadau effaith hinsawdd ar lefel cronfa a lefel cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu fydd yn ddefnyddiol i ddangos ystadegau cymharol y gronfa.
- adolygiadau o'r is-gronfeydd sy'n amlygu bod llawer iawn o waith wedi'i wneud o fewn yr is-gronfeydd i adrodd ar gryfderau ESG ac adroddiadau stiwardiaeth.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y perfformiad yn well na'r meincnod
- Bod y wybodaeth yn ddefnyddiol
- Bod angen diffiniadau cliriach i weithgaredd Cronfa Twf Byd-eang, yn enwedig o dan y testun 'metrigau hinsawdd'
- O ran buddsoddi yn lleol i Wynedd, bod angen cefnogaeth pobl leol a pheidio mynd yn erbyn yr hyn maent yn ddymuno. Rhaid bod yn effro'n lleol, a chraffu sut y bydd penderfyniadau PPC ar fuddsoddi yn cael eu gwneud - rhaid sicrhau bod y buddsoddiadau yn gynaliadwy, yn gyfrifol ac o lês i Wynedd
- Bod angen sicrhau hyder yn y buddsoddiadau, monitro perfformiad a llywodraethu
- Pryder y bydd rôl a rheolaeth y Pwyllgor ar fuddsoddiadau yn mynd yn wanach

Mewn ymateb i sylw bod angen buddsoddi'n gyfrifol ac osgoi buddsoddiad mewn materion sydd yn creu problemau mewn gwledydd eraill o'r byd (e.e., mwyngloddio ar gyfer batris AI - amodau rhai gwledydd sy'n mwyngloddio efallai ddim yn gynaliadwy), nodwyd bod goblygiadau buddsoddi yn cael eu monitro yn rheolaidd, ond y bydd y sylw yn cael ei gyfeirio at Hymans.

Mewn ymateb i sylw bod angen trafodaethau agored gydag Aelodau'r Pwyllgor i sicrhau eu bod yn deall y gofynion ac yn ymwybodol o'r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod y newidiadau yn rhan o ymateb i ofynion y Llywodraeth ac y bydd popeth yn cael ei wneud i geisio'r gorau i'r Pwyllgor. Ategodd ers i Gronfa Pensiwn Gwynedd ymuno â Phartneriaeth Pensiwn Cymru bod y berthynas gyda Rheolwyr Buddsoddi wedi newid ac nad oedd y Pwyllgor bellach yn cwrdd â hwy yn uniongyrchol. Er hynny, nododd, o'i ddealltwriaeth ef, ac o dan y drefn newydd, bydd Swyddog Buddsoddi Cyfrifol yn mynychu'r Pwyllgorau Pensiwn ac y bydd cyfle i'r Aelodau ei herio a'i holi. Bydd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Pensiynau yn cael ei gynnal ar y 26ain o Chwefror i drafod a sicrhau bod y cytundebau yn gadarn ar gyfer Cronfa Gwynedd yn ei rôl fel cyfranddaliwr a chlient.

PENDERFYNIAD

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Bod angen diffiniadau cliriach i weithgaredd Cronfa Twf Byd-eang, yn enwedig o dan y testun 'metrigau hinsawdd'**

- **Bod llais a sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth i PPC wneud penderfyniadau ar fuddsoddi - rhaid sicrhau bod y buddsoddiadau yn gynaliadwy, yn gyfrifol ac o les i Wynedd**

10. CYNHADLEDD LLYWODRAETHU CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL 2026

Cafwyd adborth ar ffurf adroddiad gan y Cynghorydd Elin Hywel oedd wedi mynychu'r gynhadledd ym mis Ionawr 2026 ar ran y Pwyllgor. Eglurodd bod y gynhadledd wedi bod yn werthfawr, a bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn y sesiynau wedi bod yn dda ac wedi ei gyfathrebu yn effeithiol.

Diolchwyd am y wybodaeth

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r adborth

11. CYNHADLEDD LAPFF 2025

Cafwyd adborth ar ffurf adroddiad gan y Cynghorydd Stephen Churchman oedd wedi mynychu'r gynhadledd gyda 'r Cynghorydd Goronwy Edwards ym mis Rhagfyr 2025 ar ran y Pwyllgor. Eglurodd bod y gynhadledd yn rhoi cyfle i fynychwyr rwydweithio, ehangu gwybodaeth a chadw i fyny â gwaith y sector.

Cyfeiriwyd at gyflwyniad a gafwyd gan Brif Weithredwr Scottish Power lle roedd pwyslais ar fuddsoddi yn gyfrifol gan osgoi buddsoddi mewn materion sy'n creu problemau mewn gwledydd eraill o'r byd (e.e., mwyngloddio ar gyfer batris AI – nad oedd amodau rhai gwledydd sy'n mwyngloddio yn gynaliadwy).

Nodwyd, mewn byd ansicr, bod angen ystyried effaith gweithredoedd gwleidyddol a rhyfelgar ar fuddsoddiadau gan geisio cadw cydbwysedd rhwng buddsoddi'n foesebol a chael y buddion gorau i bensiynwyr.

Diolchwyd am y wybodaeth

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r adborth

12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o

sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

13. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01-07-2025 – 30-09-25

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn gyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol. Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth oedd yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd gyda rhai cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Mwynau Trosiannol (Transition Minerals).

Trafodwyd y wybodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Er derbyn ar y cyfan bod y cynnydd yn galonogol yn y gweithgareddau ymgysylltu, mai siomedig oedd gweld cynifer o weithgareddau yn cael eu nodi fel 'aneffeithiol'**

14. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 30 MEDI 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar berfformiad y Gronfa dros y chwarter dan sylw. Trafodwyd perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi mewn manylder a'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen i symud tuag at y dyraniad asedau newydd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd y wybodaeth

Sylwdau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod y dychweliadau yn dda
- Yng nghyd-destun Cronfa Bensiwn Gwynedd, bod lle i barhau i gyfarfod gyda Rheolwyr Buddsoddi
- Yng nghyd-destun Dyraniad Asedau Strategol, er yn amlygu'r meincnod bod angen gweld safle'r man cychwyn (starting point) a'r targed.

PENDERFYNIAD:

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben 11:30

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	16 MAWRTH 2026
TEITL:	ADRODDIAD RHAGAMCANION MODELU LLIF ARIAN
PWRPAS:	Cyflwyno adroddiad Rhagamcanion Modelu Llif Arian.
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r adroddiad Modelu Llif Arian yn dilyn y prisiad diweddar. Mae'r adroddiad i'w weld yn Atodiad 1.

Amcan yr adroddiad ydi i rhagamcanu llif arian disgwylledig y Gronfa dros gyfnod o 20 mlynedd a deall sensitifrwydd sefyllfa llif arian net y Gronfa i nifer o senarios chwyddiant.

2. BETH YW'R LLIF ARIAN O FEWN Y GRONFA

Prif ffynonellau incwm y Gronfa yw:


- Cyfraniadau gan gyflogwyr y Gronfa
- Cyfraniadau gan aelodau sy'n weithwyr yn y Gronfa
- Ffrydiau incwm o buddsoddiadau'r Gronfa

Gwariant y Gronfa yw'r buddion sy'n daladwy i'r aelodau a'u dibynyddion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfans ymddeol a dalwyd i aelodau gweithredol a gohiriedig ar ymddeoliad
- Pensiynau ymddeol a delir i bensiynwyr a'u dibynyddion
- Buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a manteision ymddeoliad oherwydd iechyd

3. SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r siart isod yn dangos gwerth absoliwt incwm cyfraniadau a buddion a'r sefyllfa llif arian net dros y 3 blynedd diwethaf:



Mae sefyllfa llif arian y Gronfa wedi parhau'n bositif dros y blynnyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae maint y buddion sy'n cael eu talu gan y Gronfa yn parhau i gynyddu yn flynyddol. Gyda disgwyl i incwm cyfraniadau leihau oherwydd gostyngiadau cyfraddau cyfraniadau ym mhrisiad 2025, gall sefyllfa llif arian y Gronfa newid yn sylweddol mewn cyfnod byr o amser.

4. LLIF ARIAN NEGyddOL

Yn hanesyddol, mae'r buddion wedi'u talu allan o'r incwm cyfraniadau gydag unrhyw swm dros ben yn cael ei fuddsoddi. Dyma sut mae gwerth asedau'r Gronfa wedi cronni dros amser (ynghyd ag enillion ar fuddsoddiadau). Dros amser bydd cronfa bensiwn yn aeddfedu a bydd lefel y taliadau budd-dal yn dechrau mynd y tu hwnt i incwm cyfraniadau. Ar y pwynt yma yn y dyfodol (gweler isod), bydd y gronfa bensiwn yn cael ei hystyried yn "lif arian negyddol" ac o fewn yr adroddiad hwn, modelwyd tair senario posib i ganfod pryd y cyrhaeddir y pwynt yma ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Nid yw bod yn llif arian negyddol ynddo'i hun yn annisgwyl i gronfa bensiwn. Mae'r asedau sydd wedi'u cronni at ddiben talu buddion – mae eu defnyddio at y diben hwnnw yn union fel y bwriadwyd. Fodd bynnag, os na chaiff y newid i fod yn llif arian negyddol ei fonitro a'i reoli'n effeithiol, gall achosi risg hylifedd a gall y Gronfa ddod yn werthwr asedau gorfodol.


5. DADANSODDI SENARIO

Modelwyd y senarios canlynol ar gyfer y gronfa:

Senario 1: mae'r senario gwaelodlin hwn yn cynrychioli rhagolygon consensws ar gyfer chwyddiant CPI i fod yn agos at darged Banc Lloegr dros y tymor canolig, er ychydig yn uwch.

Senario 2: Mae'r senario chwyddiant gwan sy'n cael ei yrru gan y galw yn cynrychioli galw diffygiol wrth i'r llywodraeth gychwyn ar grynhoi cyllidol. Gellir cyflawni hyn trwy gynnydd mewn treth a thoriadau gwariant, gan arwain at gyfnod o dwf gwan a chwyddiant gwan sy'n cael ei yrru gan y galw (h.y. chwyddiant is na'r senario sylfaenol).

Senario 3: Mae hyn yn cynrychioli senario chwyddiant strwythurol uchel lle mae prinder llafur parhaus a chynnydd cyflog dilynol, ochr yn ochr â tharfu ar ochr y cyflenwad oherwydd risgiau geopolitical (gan gynnwys tariffau masnach) ac aflonyddwch a achosir gan yr hinsawdd yn arwain at gyfnod o chwyddiant strwythurol uwch (h.y. chwyddiant uwch na'r senario sylfaenol).



6. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

Mae canlyniad y dadansoddiad fel a ganlyn:

- O dan y senario gwaelodlin, amcangyfrifir y bydd taliadau buddion yn fwy na'r incwm cyfraniadau o 2027 ymlaen. Byddai'r diffyg o gyfraniadau yn gofyn am incwm o asedau o ddim mwy na thua 0.6% o gynnyrch.
- O dan y senario chwyddiant gwan- chwyddiant wedi'i yrru, gan dybio bod cynnydd cyflog yn y dyfodol yn parhau i fod ar 2.8% y flwyddyn, byddai senario chwyddiant a yrrir gan alw gwan yn gwella sefyllfa llif arian y Gronfa yn y blynyddoedd i ddod o'i gymharu â'r senario sylfaenol oherwydd cynnydd cyflog sy'n fwy na chwyddiant. Byddai bwlch bach rhwng incwm cyfraniadau ac allbwn budd-daliadau yn parhau (sy'n gofyn am gynnyrch incwm o hyd at oddeutu 0.2%), cyn troi'r llif arian yn gadarnhaol eto erbyn 2045.
- O dan y senario chwyddiant strwythurol uchel, mae'r senario hwn yn cynnwys chwyddiant uwch yn parhau yn y tymor byr, gan waethygu sefyllfa llif arian tymor byr y Gronfa. Yn y tymor hir, mae sefyllfa llif arian y Gronfa yn gwaethygu'n sylweddol a byddai angen cynnyrch incwm o hyd at oddeutu 1.2% (gan dybio bod codiadau cyflog yn y dyfodol yn parhau i fod ar 2.8% y flwyddyn).

7. CAMAU NESAF

Bydd y Gronfa yn rhannu'r canlyniadau gyda WPP IM Co ac yn monitro'r canlynol:

- effaith gostyngiadau mewn cyfraddau cyfraniadau a newidiadau aelodaeth ar y sefyllfa llif arian.
- unrhyw ffactorau (e.e. chwyddiant annisgwyl) a allai effeithio ar y sefyllfa llif arian
- sut y dylai'r strategaeth fuddsoddi esblygu i ddiwallu anghenion llif arian newidiol
- a oes angen polisi llif arian ac ailgydbwysu ffurfiol

8. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnwys a derbyn yr adroddiad.

Gwynedd Pension Fund

Cashflow projections

Allan Woodhouse & Richard Warden – Actuary
Chris O'Bryen – Investment consultant

23 February 2026

For and on behalf of Hymans Robertson LLP

Tud. 15

Hymans Robertson LLP is a limited liability partnership registered in England and Wales with registered number OC310282. A list of members of Hymans Robertson LLP is available for inspection at One London Wall, London EC2Y 5EA, the firm's registered office. Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority and licensed by the Institute and Faculty of Actuaries for a range of investment business activities. Hymans Robertson is a registered trademark of Hymans Robertson LLP.



Use the menu bar above to navigate to each section.

Contents

In this report:

	Page
Executive summary	3
Background and inputs	4
Cashflow projections	10
Scenario testing - inflation	14
Sensitivities	18
Next steps	20
Reliances and limitations	22

Executive summary

This paper is addressed to Cyngor Gwynedd as the Administering Authority to the Gwynedd Pension Fund (“the Fund”). The paper considers different future projections of the Fund’s cashflows under a range of different scenarios. The analysis and projections will help the Fund better understand its current and potential future cashflow position and is part of its management of risk in this area.

From the analysis and projections set out in this paper, the following conclusions can be drawn:



In the absence of investment income, the Fund is likely to be cashflow negative by the end of the 2026/27 financial year, after recognising the proposed reductions in contribution rates that have been agreed as part of the 2025 valuation and inflation in line with the ‘consensus’ view. This is earlier than previously anticipated as part of the analysis carried out in January 2023, where the Fund was expected to become cashflow negative by 2032.



The cashflow position of the Fund is sensitive to future levels of inflation. The weak demand-driven inflation scenario represents a period of “low inflation” as the government embarks on fiscal consolidation through tax increases and spending cuts. Under this scenario, the Fund’s cashflow position is improved over time, however, remains negative for most of the period. This highlights the importance of reviewing the cashflow position on a regular basis in an uncertain inflationary environment.



In the longer-term, the most significant risk to the Fund (in respect of its cashflow position) is a structurally higher inflation scenario, where inflation remains elevated for a longer period of time and the growth in payroll (and hence subsequent contribution income) does not keep pace. Under this scenario, the Fund’s cashflow position is significantly worse, with the gap between contribution income and benefit outgo increasing to a material level in the longer-term.



The Fund’s cashflow position is also sensitive to a number of other factors. The Fund should closely monitor its short term cashflow requirements to ensure that benefits can be paid in any future scenario.

Background and inputs

What is cashflow negativity and does it matter?


Every month, the Fund receives income via contributions and pays out benefits to members. Historically, the benefits have been paid out of the contribution income with any excess being invested. This is how the Fund's asset value has built up over time (along with investment returns).

Over time a pension fund will mature, and the level of benefit payments will start to exceed contribution income. At this point, a pension fund is considered "cashflow negative".

Being cashflow negative itself is not unexpected for a pension fund; the assets that have been accrued are for the purpose of paying benefits. However, if the transition to being cashflow negative is not monitored and managed effectively, it can pose a liquidity risk and the Fund may become a forced seller of assets.

At the 2025 valuation, there is a greater focus on cashflow. Improved funding positions mean that most employers will receive reductions in contribution rates from 1 April 2026, reducing the cash available to make benefit payments.

Knowing when the Fund is likely to be cash flow negative is helpful as it can have implications for both the funding and investment strategy:



This paper explores the Fund's cashflow position under different scenarios to inform the approach to cashflow management


Recent cashflow position

Using the annual report and accounts for years ending 2023, 2024 and 2025, we have analysed the recent cashflow position for the Fund.

The chart shows the absolute value of contribution income and benefit outgo (bars) and the net cashflow position (black line and white figures).

The Fund was cashflow positive for all three years i.e. contribution income exceeded benefit outgo.

However, the magnitude of benefits in payment by the Fund is continuing to increase on an annual basis. With contribution income expected to reduce because of contribution rate reductions at the 2025 valuation, the Fund's cashflow position may change significantly in a short period of time.



The net cashflow position has remained positive in recent years and in 2024/25 is around £9m (contributions exceeding benefits)

What are the cashflows of the Fund?

In this paper we consider the main cashflows in and out of the Fund over the next 20 years.

The Fund's primary sources of income are:

- Contributions from employers in the Fund
- Contributions from employee members in the Fund
- Income streams generated from the Fund's investments

Contributions paid are estimated based on:

- Payroll based on membership data as at 31 March 2025
- The proposed contribution rates for the period 1 April 2026 to 31 March 2029, as agreed as part of the 2025 valuation (equivalent to an average of 15.8% of pay).

The Fund's outflows are the benefits payable to the members and their dependants. These include:

- Retirement lump sums paid to active and deferred members on retirement
- Retirement pensions paid to pensioners and their dependents
- Death in service benefits and ill health benefits.

Transfers in and out of the Fund by individual members are not usually a significant source of income or outflow and typically balance out over time.

The projected cashflows are sensitive to several assumptions. The most significant are:

- Level of future benefit increases (almost all LGPS benefits are index-linked and increase in line with Consumer Price Index (CPI) inflation)
- Level of current and future payroll (determines the amount of contributions received)

We have prepared future cashflow projections under a range of different inflation scenarios to inform decision making. This helps the Fund understand the sensitivity of its cashflow position to these sources of uncertainty and make appropriate management plans.

Data, assumptions and methodology

Membership data

We have used the membership data as at 31 March 2025 provided for the 2025 formal valuation of the Fund.

Assumptions

The demographic and financial assumptions are in line with those adopted for the 2025 valuation of the Fund unless stated otherwise.

Further information on the membership data and assumptions is detailed in the 2025 valuation Initial Whole Fund Results report dated September 2025.

Allowance for benefit outgo in respect of benefits yet to be accrued by current active members is included in the projection; however, given the relative short timeframe considered, no allowance has been made for benefit outgo in respect of accrual by members yet to join the Fund.

Methodology: how we project benefit payments

Known pension payments for current pensioners.

Adjust for one year's pension increases, expected deaths, retirements

Adjust each year allowing for pension increases, retirement, deaths, new dependants etc.

No allowance has been made for new joiners in our analysis as we are considering a 20 year time period

Payments many years away will be to new joiners.

YEARS

Methodology: projecting contribution income


- Payroll is assumed to stay constant in real terms, i.e. it increases in line with the valuation assumption of 2.8% pa. It is uncertain how payroll may differ under varying levels of inflation, however a fixed assumption allows the sensitivity of the cashflow position to be tested against different future inflationary scenarios.
- Employer contributions are assumed to be in line with the pattern as set out on page 7
- Employee contributions are based on the weighted Fund average at the 2025 valuation (6.4% of pay).

Scenarios explored

Future CPI inflation

Given the sensitivity of future benefit payments to inflation, we have considered three potential scenarios for future inflation. All scenarios recognise an expected 3.8% increase to benefits in April 2026:


- **Scenario 1:** this **baseline** scenario represents consensus forecasts for headline CPI inflation to trend towards, albeit slightly above, the Bank of England's target over the medium-term.
- **Scenario 2:** the **weak demand-driven inflation** scenario represents deficient demand as the government embarks on fiscal consolidation. This could be achieved through tax increases and spending cuts, leading to a period of weak growth and weak demand-driven inflation (i.e. lower inflation than the baseline scenario).
- **Scenario 3:** this represents a **structurally high inflation** scenario where persistent labour shortages and subsequent wage increases, alongside supply-side disruption owing to geopolitical risks (including trade tariffs) and climate-induced disruptions lead to a period of structurally higher inflation (i.e. higher inflation than the baseline scenario).



all scenarios we have kept the payroll assumption constant at 2.8% p.a.

Cashflow projections

Projected benefit outflows (baseline scenario)



Notes

The years along the x-axis (horizontal) refer to the year-end i.e. 2027 means the 2026/27 financial year (from 1 April 2026 to 31 March 2027).

The Fund currently pays around £95m in benefit payments. This is expected to approximately double by 2046.

Projected contribution income (all inflation scenarios)



Notes


New entrants are implicitly allowed for in the income cashflow by assuming the payroll grows at 2.8% pa (in line with the Fund's 2025 valuation salary increase assumption).

The years along the x-axis refer to the year-end i.e. 2027 means the 2026/27 financial year (from 1 April 2026 to 31 March 2027).


There is expected to be a drop in contribution income in 2026/27 compared to the previous year due to the proposed reductions in contribution rates agreed at the 2025 valuation.

Baseline scenario

Whole fund net cashflow position



Income yield required




Benefit outflow is estimated to exceed contribution income from 2027 onwards.
The shortfall from contributions would require income from assets of no more than approximately a 0.6% yield.


Scenario testing - inflation

Projected benefit outflows (alternative inflation scenarios)

Weak demand-driven inflation





Structurally high inflation



Scenario analysis helps understand the impact inflation may have on future benefit payments.
There is a difference of approximately £115m in annual benefit payments between the above scenarios in 2046



Weak demand-driven inflation scenario



Assuming future pay increase remain at 2.8% pa, a weak-demand driven inflation scenario would improve the Fund's cashflow position in future years compared to the baseline scenario due to salary increases exceeding inflation. A small gap between contribution income and benefit outgo would remain (requiring an income yield of up to approximately 0.2%), before turning cashflow positive again by 2045.

Assets are assumed to increase at 5.9% pa (this is equal to the discount rate used for funding level measurement purposes at the 2025 valuation).

Structurally high inflation scenario



This scenario has higher inflation persisting in the short-term, worsening the Fund's short-term cashflow position. In the long-term, the Fund's cashflow position materially worsens and an income yield of up to approximately 1.2% would be required (assuming future pay increases remain at 2.8% pa)

Sensitivities

Sensitivity of cashflow position


The cashflow projections set out in this report are sensitive to a number of factors. Throughout this report we have focussed on the impact of future levels of inflation, however other factors that may impact the future cashflow position of the Fund include:

- **Future salary increases** – The analysis set out in this report considers a fixed salary increase assumption of 2.8% pa (in line with the 2025 valuation). It is uncertain how future salary increases may differ in the inflationary scenarios provided. However, if salary increases were to keep pace with inflation over the longer-term, the net cashflow position would be similar to that shown under the baseline scenario.
- **Future changes in contribution rates** – Contribution rates will be reviewed at future valuations (or between valuations) and may result in an increase or decrease in contributions paid to the Fund. If contribution rates decrease at future valuations, the Fund's net cashflow position will worsen due to reduced income (or vice versa).
- **Income generation** – The Fund is currently invested in income generating assets. The cashflow projections set out in this report assume there is no investment income from the Fund's assets (i.e. all investment income is reinvested), however the investment strategy could be evolved to draw income from these investments to improve the net cashflow position.
- **Transfers in/out** – Transfers in and out of the Fund can have a significant impact on the net cashflow position of the Fund. If transfers out exceed transfers in in any year, the Fund's net cashflow position will worsen (or vice versa).
- **Redundancies** – Redundancies incur immediate costs to the Fund and bring forward the payment of benefits to members. Therefore, any planned redundancy exercises may worsen the cashflow position if a significant number of member benefits come into payment earlier than anticipated (albeit the payment of early retirement strains by employers may improve the immediate cashflow position in the year these are paid).
- **Pre-payments** – Pre-payment of future contributions can significantly alter the net cashflow position of the Fund. If employers choose to pre-pay future contributions, this will improve the net cashflow position in the year of pre-payment and, as a result, worsen the net cashflow position in the following year(s).
- **Demographic assumptions** – The cashflow projections are based on the demographic assumptions set for the purpose of the 2025 valuation. These assumptions impact the timing of benefit payments (e.g. retirement age) and actual timings may differ to the assumptions made within the projections.

The Fund should closely monitor their short term cashflow requirements to ensure that benefits can be paid in any future scenario.

Next steps

Next steps



Reliances and limitations

APPENDIX 1

Reliances and limitations

This paper is addressed to Cyngor Gwynedd as Administering Authority to the Gwynedd Pension Fund. It has been prepared in our capacity as actuary and investment consultant to the Fund and is solely for the purpose of projecting the expected cashflows of the Fund over a 20-year time horizon. It has not been prepared for any other purpose and should not be used for any other purpose.

The cashflow projections are based on a specific set of deterministic assumptions, which are highly unlikely to be borne out exactly. We therefore do not claim that the future will exactly match the figures in this paper. The results should be used to give an indicative idea of the Fund's medium term cashflow requirements only.

Any party must accept full responsibility for establishing that the cashflows are appropriate for the purpose to which they want to put them and any decisions that are taken based on their analysis. We cannot be held responsible for any losses sustained as a result of third parties relying on the cashflows provided, or if the cashflows are used for any inappropriate purpose

The extent of the deviations from the assumptions underpinning the cashflow projections depends on uncertain economic events as well as other factors that are not known in advance such as members' decisions, variations in mortality rates, retirement rates and withdrawal rates, fluctuations and rates of salary increase, and the numbers and ages of future new entrants which cannot be accurately predicted. In addition, there could be changes in the regulatory environment and possible changes in retirement benefits.

These other uncertainties are often not related to any particular investment and economic eventualities.

Three of the important uncertainties are the:

- (a) Rate of pension increases, the vast majority of which increase at the annual increase in CPI inflation
- (b) Extent to which members elect to exchange pension for cash at retirement
- (c) Level of future payroll and contribution rates which will determine the amount of contributions paid into the Fund

The Administering Authority is the only user of this advice. Neither we nor Hymans Robertson LLP accept any liability to any party other than the Administering Authority unless we have expressly accepted such liability in writing.

This report may be shared with the Fund's independent investment advisor for information purposes only but may not be passed onto any other third party (such as including in the public part of the Pension Committee & Board's meeting papers or the Fund's asset pool) except as required by law or regulatory obligation, without prior written consent of Hymans Robertson LLP.

In circumstances where disclosure is permitted, the advice may only be released or otherwise disclosed in its entirety fully disclosing the basis upon which it has been produced (including any and all limitations, caveats or qualifications).

The following Technical Actuarial Standards are applicable in relation to this advice, and have been complied with where material and to a proportionate degree:

- TAS100
- TAS300.

© Hymans Robertson LLP February 2026. All rights reserved.

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	16 MAWRTH 2026
TEITL:	DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
PWRPAS:	Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn ymgynghoriad
ARGYMHELLIAD:	MABWYSIADU'R DATGANIAD
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Fel adroddwyd i'r Pwyllgor yma ar 9 Chwefror 2026 mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC). Cyflwynwyd a chytunwyd hwn ym mhwyllgor mis Chwefror a chafodd ei ddanfôn allan am ymgynghoriad gyda phartïon a diddordeb.

2. YMATEB YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa.

